

BAKER, Syr WILLIAM STANLEY (1928 - 1976), actor a chynhyrchydd

Enw: William Stanley Baker
Dyddiad geni: 1928
Dyddiad marw: 1976
Priod: Ellen Baker (née Martin)
Plentyn: Martin Baker
Plentyn: Sally Baker
Plentyn: Glyn Baker
Plentyn: Adam Baker
Rhiant: John Henry Baker
Rhiant: Elizabeth Louisa Baker (née Locke)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: actor a chynhyrchydd
Maes gweithgaredd: Perfformio
Awdur: Daryl Leeworthy

Ganwyd Stanley Baker ar 28 Chwefror 1928 yn 32 Stryd Albany, Ferndale yn y Rhondda Fach, sir Forgannwg, yr ieuengaf o dri o blant John Henry Baker (1896-1950), halier a dyn injan, a'i wraig Elizabeth Louisa (g. Locke, 1896-1974). Tyfodd i fyny yn 'blentyn gwylt', yn ôl ei addefiad ei hun, a fyddai'n mitsio ysgol mor aml ag y gallai. Pan gollodd tad Baker ei goes mewn damwain dan ddaear, penderfynodd y dyn ifanc na fyddai fyth yn mynd i'w syniad ef o uffern (fel y disgrifiodd y pwll glo yn ddiweddarach), a chwilioodd am unrhyw fodd i osgoi tynged y glöwr. Teimlai Baker fod ganddo ddau ddewis: paffio neu actio.

Meithrinwyd ei ddawn gynnar gan Glynne Morse, un o'i athrawon yn Ysgol Uwchradd Ferndale. Yn bedair ar ddeg oed sylwodd chwilotwr am dalent dros Ealing Studios arno a dod ag ef i mewn i gynhyrchiad *Undercover* (1943), ffilm adeg y rhyfel am herwfilwyr yn Iwgoslafia. Chwe mis yn ddiweddarach, cafodd Baker ran yn *The Druid's Rest* gan Emlyn Williams. Perfformiwyd y ddrama am y tro cyntaf yn Theatr St Martin yn Llundain yn 1944, ac roedd yn nodedig hefyd fel man cychwyn gyrfa [Richard Burton](#) ar y llwyfan. 'That gave me the real taste for the theatrical profession', meddai Baker yn ddiweddarach.

Yn sgil *The Druid's Rest*, ymunodd Baker â'r Birmingham Repertory Theatre gan actio mewn dramâu megis *She Stoops To Conquer*, *The Seagull*, a *1066 And All That*. Yn 1946, gwysiodd ef i wasanaeth cenedlaethol a threuliodd ddwy flynedd yn y Royal Army Service Corps. Cafodd ei ryddhau o'r fyddin yn 1948, ac yn ugain oed dychwelodd i Lundain i chwilio am waith actio. Fe'i cafodd yn anodd am dipyn, ac wedyn yn 1949 dechreuodd pethau wella - cafodd ran yn nrama Terence Rattigan, *Adventure Story* (1949), ffilm gomedi Derek Twist *All Over Town* (1949), a rhan nas clodrestrwyd yn y ffilm dditectif *Obsession* (1949) a gyfarwyddwyd gan yr Americanwr alltud Edward Dmytryk. Ymunodd Baker â'r Middlesex Repertory Theatre hefyd. Ar ddechrau'r 1950au, cyfunodd ffilm a theatr gydag actio teledu gan greu portffolio o waith a gynhwysai daith *A Sleep of Prisoners* Christopher Fry fel rhan o yl Prydain yn 1951. Trosglwyddwyd y cynhyrchiad i'r Unol Daleithiau wedyn. Tra bu yno, darllenodd Baker nofel Nicholas Monserrat *The Cruel Sea* (1951) a phenderfynodd fynd ati i ennill rhan Lt. James Bennett yn yr addasiad ffilm arfaethedig dan gyfarwyddyd Charles Frennd. Y rhan honno a enillodd amlygrwydd iddo ym myd y sinema a'i alluogi i symud ymlaen o rannau ategol i fod yn brif actor.

Prif ran gyntaf Baker oedd fel Tom Yately yng nghlasur Cy Endfield, *Hell Drivers* yn 1957, gyferbyn â Patrick McGoohan a William Hartnell. Cyn hynny roedd Endfield wedi castio Baker yn ei ddrama *Child in the House* yn 1956. Ffurfiodd y ddau berthynas waith agos gan fynd ymlaen i sefydlu Diamond Films - y cwmni cynhyrchu a fu'n gyfrifol am wneud *Zulu* yn 1964. Fel actor, roedd Stanley Baker yn adnabyddus am ei berfformiadau caled, garw, gwrywaidd, pa un ai fel dihiryn neu fel gwrth-arwr a allai ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa. Cafodd ei ystyried ar gyfer rhan James Bond hyd yn oed, er mai ei gyfaill Sean Connery a ddewiswyd yn y pen draw. Roedd apêl Baker i gynulleidfaoedd yn amlwg iawn yn *Zulu*, lle trawsnewidiodd gymeriad hanesyddol-gymhleth Lt. John Chard yn ffigur empathetig cofiadwy a hawliodd y sgrîn. Erbyn canol y 1960au, roedd Baker ar anterth ei allu fel actor ac yn seren mewn ffilmau arobryn fel *Accident* gan Harold Pinter (1967) a enillodd y Grand Prix yng Ng yl Ffilmau Cannes. Roedd hefyd yn gwneud enw iddo'i hun fel cynhyrchydd, nid yn lleiaf am y ffilm eiconig *The Italian Job* yn 1969 - er na chafodd ei glodrestru y tro hwnnw.

Anaml y gwelwyd Baker gan gynulleidfaoedd teledu yng Nghymru tan ddegawd olaf ei fywyd. Yn 1965, ymunodd â'i gyfeillion y nofelydd Gwyn Thomas (1913-1981) a'r actor Donald Houston (1923-1991) yn rhaglen ddogfen nodedig Television Wales and the West *Return to the Rhondda*. Myfyriodd Baker yn deimladwy am ei benderfyniad i osgoi'r pwll glo, ei gyfyng-gyngor rhwng paffio ac actio, a'i edmygedd o ddynion fel Tommy Farr a [Jimmy Wilde](#) a arferodd y grefft fonheddig mor llwyddiannus. Degawd yn ddiweddarach, dychwelodd Baker i'r teledu yn ei ran orau ar y sgrîn fach, fel y patriarch Gwilym yn addasiad [Elaine Morgan](#) o *How Green Was My Valley*. Mewn rhan a allasai fod fel arall yn oeraidd, a Gwilym i'w weld yn

anghydawns â radicaliaeth ei feibion a phenderfyniad ei wraig, Beth, a chwaraewyd gan Sian Phillips, disgleiriodd Baker. Mae ei fersiwn ef o Gwilym Morgan yn ddigymar. Darlledwyd *How Green Was My Valley* ar BBC Two rhwng 29 Rhagfyr 1975 a 2 Chwefror 1976, gan orffen ychydig wythnosau cyn pen-blwydd Baker yn wyth a deugain ac un diwrnod ar ddeg cyn iddo gael diagnosis o gancr yr ysgyfaint. Ei ymddangosiad olaf ar y sgrîn oedd rhan mewn cyfres fer gymharol ddi-nod ar gyfer teledu Almaeneg-Eidaleg, *Orzowej*, a ddarlledwyd yn 1977.

Priododd Baker yr actores Ellen Martin, y cwrddodd â hi yn y London Apollo, yn Hydref 1950. Ganwyd iddynt bedwar o blant: yr efeilliaid Martin (1953) a Sally (1953-), Glyn (1957-), a ddaeth yn actor hefyd, ac Adam (1961-). Tu ôl i'r camera, roedd Baker yn enwog am ei hoffter o geir cyflym, ei gaethiwed gamblo, ei frwdfrydedd am alcohol a mynd ar sbri dros sawl diwrnod, a'i arfer smygu ar hyd ei oes, oll yn agweddu ar ei gymeriad a gydnabyddai'n agored mewn cyfweiliadau â'r wasg. Diau iddynt gyfrannu at ei gancr a'i farwolaeth o niwmonia yn Sbaen ar 28 Mehefin 1976, yn ddyn cymharol ifanc wyth a deugain oed.

Fel dyn busnes, gwasanaethodd Baker ar fyrddau nifer o gwmlniau, gan gynnwys bwrdd Teledu Harlech (HTV) fel un o'r cyfarwyddwyr sylfaenu gyda [Richard Burton](#). Mynychodd gyfarfodydd bwrdd HTV yn rheolaidd yn y 1960au a'r 1970au, gan gyfrannu at ffurfio datblygiad teledu annibynnol yng Nghymru. Roedd hefyd yn nodedig am ei ddaliadau gwleidyddol sosialaidd, a daeth yn gyfaill agos i'r Prif Weinidog Llafur, Harold Wilson, a enwebodd Baker yn farchog yn yr anrhydeddau ymddiswyddiad yn 1976. Cyfrannodd Baker ei hun i ddarllediadau ymgyrchu'r Blaid Lafur ac roedd yn elyn digyfaddawd i genedlaetholdeb Cymreig, a oedd yn ei farn ef yn 'foolish and misguided'.

Nid oedd prinder actorion dosbarth gweithiol o Gymru a gododd i frig eu proffesiwn ym Mhrydain wedi'r rhyfel, ond mewn maes gorlawn daliodd Stanley Baker ei le yn rhwydd. Ynghyd â'i gyfeillion Donald a Glyn Houston, sefydlodd y Rhondda yn gystadleuydd credadwy i Bort Talbot fel crud actorion, a daeth â dynoliaeth a gwleidyddiaeth ei gwm genedigol i uchelfannau byd sinema, theatr a theledu. Yn ei eiriau ei hun, roedd yn 'gentle person' a ymwadai â thrais - yn wrthwyneb i lawer o'i gymeriadau mwyaf cofiadwy ar y sgrîn - dyn nad anghofiodd fyth mo'i wreiddiau dosbarth gweithiol ond a gyflawnodd freuddwydion ac uchelgeisiau cynifer o bobl y Rhondda am enwogrwydd a llwyddiant. Yn hyn o beth roedd yn un o'r Cymry Americanaidd rheini, fel [Richard Burton](#) a Gwyn Thomas, a gofleidiodd gyfleoedd gwyllt moderniaeth heb gyfaddawdu eu hymdeimlad â'u hunaniaeth a'r hyn a feithrinwyd ynddynt gan eu magwraeth. 'Whenever I go there', meddai Baker am gartref ei blentynod yn Ferndale, 'I look at the two down and three up and I think, that's me...that's what I am. All that has happened since is immensely important, but not as important as where I come from.'

Awdur

Daryl Leeworthy

Ffynonellau

Robert Shail, *Stanley Baker: A Life in Film* (Cardiff 2008)

Peter Stead, *Acting Wales: stars of Welsh stage and screen* (Cardiff 2002)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Stanley Baker](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [32182492](#)

Wikidata: [Q1306352](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2021-07-15

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

